



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

**Datgeliad Cofnodion Troseddol – Y Rhestr O Droseddau
An-Hidladwy
Crynodeb**

**Adroddiad Rhif 371 (Crynodeb)
1 Chwefror 2017**

CYFLAWNI'R GYFRAITH DATGELIAD COFNODION TROSEDDOL - Y RHESTR O DROSEDDAU AN-HIDLADWY

CRYNODEB

TESTUN YR ADRODDIAD HWN

- 1.1 Rhaid i gyfraith sydd yn rheoli'r amgylchiadau pan fo disgwyl i unigolyn ddatgelu ei gofnod neu ei chofnod troseddol bwysu a mesur yn ofalus rhwng darparu cyfle i'r unigolyn hwnnw adsefydlu (er mwyn "anghofio" ei droseddau/throseddau yn y gorffennol) a sicrhau bod digon o amddiffyniad mewn lle i warchod yn erbyn y risg bod yr unigolyn yn ail-droseddu ac y gellid, o ganlyniad, peri niwed. Mae'r cwestiwn hwn o bwysu a mesur yn un sydd yn tra-arglwyddiaethu ar y system datgeliad cofnodion troseddol.
- 1.2 Mae'r adolygiad hwn yn ystyried un agwedd gul ar y fframwaith cyfreithiol sydd wrth wraidd datgelu euogfarnau troseddol a rhybuddiadau. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar y gyfraith sydd yn delio gyda
 - (1) ymgeiswyr am, ac
 - (2) aelodau neu ddeiliaidgalwedigaethau arbennig, cyflogaethau a thrwyddedau lle mae'r safleoedd hynny yn cael eu hystyried fel rhai sydd angen graddfa uchel o ymddiriedaeth. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: y rhai hynny sydd yn galw am gyswilt gyda phlant ac oedolion agored i niwed (er enghraifft, meddygon a nyrsys); aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol, a, trwyddedai drylliau neu gamblo.
- 1.3 Yn benodol, mae'r adolygiad hwn yn archwilio'r broses a elwir yn "hidlo". Proses yw hon lle mae rhai euogfarnau a rhybuddiadau nad oes yn rhaid eu datgelu pan fydd unigolyn yn cael ei holi am ei gofnod neu ei chofnod troseddol er mwyn asesu a yw ef neu hi yn addas ar gyfer swydd neu rôl benodol. Cyflwywyd y system hidlo yn 2013.¹
- 1.4 Dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ("ROA 1974"), gall euogfarn droseddol fod wedi "disbyddu" ar ôl cyfnod penodol o amser. Y pryd hwnnw mae'r person yn cael ei drin i bob pwrpas fel un nad yw wedi cyflawni 'r rosedd. Ystyrir bod rhybuddiad wedi ei ddisbyddu ar unwaith.²
- 1.5 Mae eithriad i'r rheol gyffredinol hon. Dan yr eithriad hwnnw, pan ofynnir cwestiwn i unigolyn er mwyn sefydlu a yw ef neu hi yn addas ar gyfer math penodol o swydd neu swyddogaeth (fel y disgrifir mewn termau cyffredinol ym mharagraff 1.1 uchod), dylid datgelu pob euogfarn a rhybuddiad, hyd yn oed os

¹ Yn dilyn achos *R (T ac eraill) v Prif Gwnstabl Manceinion Fwyaf* [2013] EWCA Civ 25.

² Oni bai ei fod yn cael ei osod â thelerau ynghlwm wrtho. Gweler ymhellach para 1.31 ac yn dilyn, isod.

ydynt wedi disbyddu dan ROA 1974. Mae datgelu euogfarnau a rhybuddiadau sydd wedi disbyddu, fodd bynnag, yn amodol ar y system hidlo.³

- 1.6 O dan y system honno, nid oes yn rhaid datgelu euogfarnau a rhybuddiadau ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau (maent wedi eu "hidlo"), cyhyd â bod amser penodol wedi mynd heibio a'u bod yn bodloni amodau penodol eraill. Un o'r amodau er mwyn i euogfarn neu rybuddiad gael ei hidlo yw bod y drosedd y mae'n cyfeirio ati yn un nad yw ar y rhestr o droseddau na ellir byth eu hidlo (y rhestr o droseddau "an-hidladwy"). Mewn termau cyffredinol, mae'r rhestr hon yn cynnwys troseddau treisgar, troseddau rhywiol a throseddau perthnasol i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed (a elwir yn aml yn "ddiogelu").⁴
- 1.7 Fel y nodwyd uchod, prif bwrpas y system hidlo yw cael cydbwysedd rhwng dau angen polisi pwysig.
- (1) Dylai unigolyn sydd wedi troseddu, wedi cyfnod adsefydlu addas, gael cyfle i ddechrau bywyd o'r newydd heb gael ei lesteirio neu ei llesteirio gan gofnod troseddol o'r gorffennol.
 - (2) Dylai cyflogwyr ac eraill mewn safle o gyfrifoldeb fedru cael yr wybodaeth sydd ei angen er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny, yn enwedig mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Mae hyn yn cyfeirio at ddarparu datgeliad cymesur â, er enghraifft, hanes troseddol darpar weithwyr sydd yn gwneud cais am swyddi penodol.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

- 1.8 Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ddatgeliadau cofnodion troseddol yn cael eu gwneud trwy'r system Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ("DBS").⁵ Mae cael trwydded cofnod troseddol gan y DBS yn un ffordd, er nid yr unig un, y gall unigolyn ateb cwestiwn am ei gofnod neu ei chofnod troseddol.
- 1.9 Pwrpas allweddol y DBS yw darparu datgeliad cofnodion troseddol perthnasol i sefydliadau ac unigolion sydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd unigolyn i gyflogaeth neu rôl benodol. Mae gwneud cais i'r DBS am wirio cofnodion troseddol yn arwain at gyflwyno tystysgrif cofnod troseddol, gan restru pob "mater perthnasol" (euogfarnau, rhybuddiadau) a gofnodwyd yn erbyn yr unigolyn sydd yn destun y cais a – mewn ambell achos arbennig – gwybodaeth arall sydd yn nwylo'r heddlu. Rydym yn deall bod y DBS yn 2015 wedi prosesu 4.2 miliwn cais, gyda 358,000 o geisiadau yn dangos materion a allai fod yn berthnasol cyn-hidlo. Pan ddefnyddiwyd y rheolau hidlo 244,000 oedd y nifer o dystysgrifau a gyflwynwyd yn cynnwys materion perthnasol.
- 1.10 Gall methiannau yn y system gael canlyniadau pell-gyrhaeddol, yn nhermau y nifer o bobl a effeithir gan, a difrifoldeb, y risgiau sy'n codi o'r methiannau hynny fel ei gilydd. Mae'r risgiau yn cynnwys:

³ Mae rhai amgylchiadau penodol lle nad yw hidlo yn gweithredu. Trafodir rhain ymhellach ym Mhennod 2.

⁴ Gweler ymhellach para 1.33 isod.

⁵ Sefydlwyd DBS gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 a daeth yn lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).

- (1) y posibilrwydd o hanes troseddol perthnasol na sylwyd arno, gan arwain at y risg bod unigolyn mewn swydd neu rôl benodol yn anaddas ar ei chyfer a, ble bo hynny yn berthnasol, bod oedolion agored i niwed a phlant heb gael eu hamddiffyn neu eu diogelu yn ddigonol; neu
- (2) y posibilrwydd o ddatgeliad anaddas, sydd yn cyflwyno risg o niweidio hawl unigolyn i adsefydlu (bod ymddygiad troseddol cynt yn cael ei "anghofio" yn dilyn cyfnod addas o amser a/neu mewn amgylchiadau addas), gyda chanlyniadau personol dyfnion i'r unigolyn.

Gan ystyried y materion tyngedfennol yn y fantol, mae'n hanfodol bwysig bod y fframwaith cyfreithiol a gweithredol sydd yn cefnogi penderfyniadau y DBS yn glir, yn deg ac yn gadarn.

CEFNDIR Y PROSIECT

- 1.11 Yn hwyr yn 2015 derbyniodd Comisiwn y Gyfraith gais gan y Swyddfa Gartref ynghylch prosiect posibl i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y system sydd yn datgelu cofnodion troseddol.
- 1.12 Mae fframwaith deddfwriaethol o'r system wedi cynnwys oddi mewn i rannau perthnasol:
 - (1) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974;
 - (2) Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) 1975;
 - (3) Deddf yr Heddlu 1997;
 - (4) Deddf yr Heddlu 1997 (Datgeliad Manylach Cofnodion Troseddol) (Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed) Rheoliadau 2002;
 - (5) Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006; a
 - (6) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.
- 1.13 Ym mis Gorffennaf 2016, roedd trafodaethau pellach wedi canolbwyntio ar brosiect culach, byrrach yn ystyried effeithiolrwydd rhai agweddau ar y rhestr o droseddau an-hidladwy, y gellir eu canfod yn adran 113A(6D) o Ddeddf yr Heddlu 1997.⁶
- 1.14 Mae cylch gorchwyl y prosiect, fel y cytunwyd rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r Swyddfa Gartref, yn gosod amcanion yr adolygiad presennol fel un fydd yn:
 - (1) symleiddio ac egluro'r weithred o hidlo;
 - (2) sicrhau bod y system yn delio yn effeithiol ac yn gyflawn gydag ymddygiad sydd yn cyflwyno risg o ran diogelu; a
 - (3) osgoi bod y system yn mynnu datgelu mân droseddau ble nad yw hynny angenrheidiol.

⁶ Gellir canfod rhestr gyfatebol yn Erthygl 2A Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975.

1.15 Hefyd yn y cylch gorchwyl hwn, cytunwyd y byddem:

- (1) yn datblygu set o egwyddorion fel bod troseddau yn cael eu dosbarthu fel rhai addas ar gyfer y rhestr an-hidlady ac ystyried a yw'r rhestr gyfredol o droseddau a nodir yn adran 113A(6D) Deddf yr Heddlu 1997 yn gynhwysfawr, gyda chyfeiriad arbennig at y gyfraith gwlad a throseddau hanesyddol;
- (2) yn cadw mewn cof y system o droseddau sydd wrth wraidd cofnodi troseddau ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ("PNC") a bwriad polisi'r Llywodraeth i sicrhau bod oedolion agored i niwed a phlant yn cael eu hamddiffyn rhag ymddygiad sydd yn peri risg i ddiogelwch;
- (3) yn asesu'r ffordd orau i ddiogelu'r drefn ar gyfer y dyfodol trwy ddiddymu troseddau cyfraith gwlad a diddymu y rhai statudol; ac
- (4) ystyried yr opsiynau ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth perthnasol.

1.16 Am resymau a eglurir mewn penodau yn nes ymlaen, wrth i'r adolygiad hwn fynd yn ei flaen daeth yn glir na fyddai'n ymarferol i ddatblygu set o egwyddorion, fel yr awgrymwyd yn (1) uchod, oddi mewn i paramedrau'r prosiect a gytunwyd gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'r prosiect yn un cul iawn gyda ffrâm amser byr. Mae ein cylch gorchwyl yn cyfyngu yn ffurfiol ein hadolygiad i newidiadau y gellir eu cyflwyno trwy ddefnddio is-ddeddfwriaeth yn unig.

1.17 Fodd bynnag, gofynwyd i ni hefyd asesu'r angen posibl am adolygiad ehangach o'r system o ddatgelu cofnodion troseddol (heb eu rhwystro gan gyfyngiadau o'r math) ac i ystyried pa ddiwygiadau, y tu hwnt i adolygu'r rhestr an-hidlady, a all fod yn angenrheidiol neu yn ddymunol er mwyn creu cynllun mwy effeithiol ac effeithlon. Rydym yn ystyried, oddi mewn i gyd-destun yr adolygiad ehangach posibl hwn, y mater o egwyddorion sydd yn pennu pa droseddau y gellir eu categoreddio fel rhai addas i'w cynnwys yn y rhestr o droseddau an-hidlady. Mae pennod 5 o'n hadroddiad yn cynnwys trafodaeth ar y materion ehangach hyn .

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

1.18 O ystyried y ffrâm amser cyfyngedig ar gyfer y prosiect a'r ffocws technegol ar yr adolygiad a awgrymwyd, mabwysiadwyd dull dwy haen i'r ymgynghoriad. Dynodwyd grwpiau allweddol cynrychiadol a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd ymgynghori wedi eu targedu a thrafodaethau o amgylch y bwrdd gydag arbenigwyr yn y maes hwn, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein i gasglu mewnbyn ynghlych materion ehangach i'w diwygio.

1.19 Roedd y math o ymgynghorai a dargedwyd gennym yn cynnwys:

- (1) Cyrff llywodraethol ac asiantaethau sydd ynghlwm â datblygu a gweithredu'r system o ddatgelu cofnodion troseddol yng Nghymru a Lloegr;
- (2) Cyrff llywodraethol ac asiantaethau sydd ynghlwm â datblygu a gweithredu'r system o ddatgelu cofnodion troseddol mewn awdurdodaethau eraill;

- (3) swyddogion yr heddlu a sefydliadau, yn enwedig y rhai hynny sydd yn gyfrifol am y PNC;
- (4) y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Awdurdod Gwasanaeth Eryl;
- (5) ymarferwyr cyfreithiol;
- (6) academyddion cyfreithiol;
- (7) rheoleiddwyr a chyrrff proffesiynol, yn enwedig y rhai hynny sydd yn ymwneud â mynediad i'r proffesiynau cyfreithiol, gofal iechyd ac addysg; ac
- (8) elusennau a sefydliadau eraill anlywodraethol yn cynrychioli diddordebau cyflogwyr sydd yn dibynnu ar y system DBS a'r unigolion hynny sydd yn gwneud cais i'r DBS am dystysgrifau cofnodion troseddol.

1.20 Roedd ein ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 16 Medi 2016:

Mae ein gwaith ar hyn o bryd wedi ei gyfyngu i adolygiad o weithredu'r 'rhestr an-hidlady' sydd yn gosod allan troseddau mor ddifrifol fel y dylid eu datgelu bob amser.

Rydym yn gwahodd ymgynghorai i ddarparu tystiolaeth o unrhyw broblemau neu anhawsterau y gallant fod wedi eu profi mewn cysylltiad â'r rhestr o droseddau difrifol a ddatgelir bob amser.

1.21 Derbyniwyd atebion i'r cwestiynau hyn tan 11 Hydref 2016. Dymunwn ddiolch i bob ymgynghorai oedd wedi ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad ar-lein.

YR ADRODDIAD YN GRYNO

1.22 Mae strwythur ein hadroddiad fel a ganlyn:

- (1) Pennod 1 yw'r cyflwyniad.
- (2) Mae pennod 2 yn gosod allan y gyfraith fel y saif ar ddatgelu a thystysgrifau cofnodion troseddol.
- (3) Mae pennod 3 yn trafod y problemau sydd yn effeithio ar y rhestr nad yw'n hidlo.
- (4) Mae pennod 4 yn trafod ac yn argymhell datrysiadau i'r problemau hyn.
- (5) Mae pennod 5 yn awgrymu testunau i'w hystyried mewn adolygiad ehangach.
- (6) Mae pennod 6 yn rhestru ein hargymhellion.

Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau isod.

Y gyfraith gyfredol (Pennod 2)

Adsefydlu troseddwr

- 1.23 Mae Deddf Adsefydlu Troseddwr 1974 ("ROA 1974") yn datgan pan fydd cyfnod wedi mynd heibio yn dilyn euogfarn a chob am rai troseddau, mae'r euogfarn wedi "disbyddu". Cyhyd a bod dim ail-droseddu wedi digwydd, mae gan y troseddwr yr hawl i gael ei drin neu ei thrin i bob pwrpas fel ei fod ef neu ei bod hi heb droseddu. Mae'r cyfnod amser hwn yn amrwyio o ddim amser o gwbl (os yw'r troseddwr wedi cael ryddhad diamod) i saith mlynedd o ddiwedd y ddedfryd (os cafodd y troseddwr ddefnyd o garchar am fwy na 30 a llai na 48 mis). Os yw'r ddedfryd am fwy na 48 mis, nid yw'r drosedd byth yn cael ei disbyddu.
- 1.24 Mae darpariaethau tebyg pan fydd troseddwr wedi cael rhybuddiad. Mae rhybuddiad wedi ei ddisbyddu cyn gynted ag y caiff ei gyflwyno, ar wahân i ambell achos pan gyflwynwyd y rhybuddiad gydag amodau ynghlwm wrtho.
- 1.25 Dan adran 4 o'r ROA 1974, gall yr Ysgrifennydd Gwladol greu gorchmynion mewn amgylchiadau arbennig sydd yn creu eithriadau i'r hawl i beidio datgelu fel y nodwyd uchod. Y gorchmyn sydd mewn grym yn awr sydd yn gosod allan yr eithriadau hyn yw Gorchmyn Deddf Adsefydlu Troseddwr (Eithriadau) 1975 ("Gorchmyn 1975").⁷
- 1.26 Mae Gorchmyn 1975 yn datgan nad yw yr hawl i beidio datgelu yn ROA 1974 yn gweithredu pan ofynnir i berson ddatgelu ei gofnod neu ei chofnod troseddol er mwyn asesu addasrwydd ar gyfer rhai swyddi, proffesiynau a thrwyddedau ac mewn rhai amgylchiadau sydd yn galw am raddfa uchel o ymddiriedaeth a/neu gyswllt â phlant ac oedolion agored i niwed. Yn yr achosion hyn, dylid datgelu pob euogfarn a rhybuddiad, p'un ai eu bod wedi disbyddu ai peidio, oni bai eu bod wedi eu "hidlo".
- 1.27 Fel yr eglurir ym Mhennod 2, yn y rhan fwyaf o achosion bydd modd i'r person sydd wedi cael cais i ddatgelu ei gofnod neu ei chofnod troseddol wneud hyn trwy wneud cais i'r DBS am dystysgrif cofnod troseddol. Mewn rhai achosion bydd y cyflogwr neu sefydliad arall sydd yn chwilio am ddatgeliad yn gofyn i'r person gael hyd i dystysgrif o'r math.

Tystysgrifau cofnodion troseddol

- 1.28 Mae Deddf yr Heddlu 1997 yn darparu i'r mathau canlynol o dystysgrifau gael eu cyflwyno:
- (1) ystysgrifau *cofnodion troseddol* yn cynnwys euogfarnau a rhybuddiadau cyfredol (hynny yw, heb eu disbyddu) yn unig (cyfeirir atynt yn gyffredinol fel tystysgrifau "sylfaenol" - term rydym yn ei fabwysiadu er mwyn cyfeirio hawdd);
 - (2) tystysgrifau *cofnodion troseddol* (cyfeirir atynt yn gyffredinol fel tystysgrifau "safonol" – term rydym yn ei fabwysiadu hefyd er mwyn cyfeirio hawdd), yn cynnwys pob euogfarn a rhybuddiad, p'un ai eu bod wedi disbyddu ai peidio, yn amodol ar "hidlo"; a

⁷ SI 1975/1023.

- (3) tystysgrifau cofnodion troseddol manylach (byddwn yn cyfeirio atynt fel tystysgrifau manylach), yn cynnwys yr un wybodaeth â'r tystysgrifau safonol, ynghyd â gwybodaeth bellach yr ystyrir ei fod yn berthnasol gan yr heddlu (ac, mewn rhai achosion, yn datgan a yw'r person dan sylw wedi ei wahardd neu ei gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed).
- 1.29 Mae tystysgrifau euogfarnau, neu sylfaenol, ar gael i unrhyw unigolyn sydd yn ceisio copi o'i hanes euogfarnau troseddol ei hun, at unrhyw ddiben. Nid oes gan y DBS gyfrifoldeb am y rhain.⁸
- 1.30 Mae gan y DBS gyfrifoldeb am gyflwyno tystysgrifau cofnodion troseddol safonol a manylach. Mae ein cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ond yn ymdrin â'r wybodaeth y gellir ei chynnwys ar dystysgrifau cofnodion troseddol safonol a manylach (ond nid gwybodaeth y gellir ei chynnwys ar dystysgrif fanylach yn unig). Yr unig bryd y gellir cyflwyno'r mathau hyn o dystysgrifau cofnodion troseddol yw pan fydd person yn gofyn cwestiwn mewn perthynas â'i addasrwydd ef neu hi ar gyfer rhai swyddi, proffesiynau a thrwyddedau ac mewn rhai amgylchiadau eraill: mewn geiriau eraill yn yr union un amgylchiadau â'r rhai hynny a nodwyd yng Ngorchymyn 1975.
- 1.31 Cyflwynir y dystysgrif i'r person dan sylw, a fydd yn ei dangos i'r darpar gyflogwr neu berson arall sydd yn ystyried ei addasrwydd/haddasrwydd, megis corff proffesiynol neu awdurdod trwyddedu. Mae'r mecanwaith hwn ond yn weithredol pan yw'r darpar gyflogwr neu berson arall yn "berson cofrestredig". (Gall busnes, swyddog neu awdurdod fod yn "gofrestredig" os yw'n dangos ei fod yn debygol o dderbyn ceisiadau o'r math a gofyn cwestiynau am gofnodion troseddol ymgeisydd.) Gall yr unigolyn mae'r dystysgrif yn cyfeirio ato neu ati gwyno os yw'n ystyried ei bod yn anghywir (trafodir ymhellach isod ym mharagraff 1.40).

Hidlo

- 1.32 Yn achos *R (T ac eraill) v Prif Gwnstabl Manceinion Fwyaf*⁹ daliodd y Llys Apêl fod datgeliad hollgynhwysfawr o bob euogfarn a rhybuddiad, ble roedd addasrwydd unigolyn ar gyfer rhai swyddi, proffesiynau a thrwyddedau yn cael eu hasesu, yn anghymesur. Mewn geiriau eraill, nid oedd y cynllun statudol i wirio cofnodion troseddol yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i sicrhau bod cyflogwyr a sefydliadau eraill oedd yn asesu addasrwydd yn cael gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â hanes troseddol unigolyn a hawl unigolyn i adsefydlu.
- 1.33 O ganlyniad, yn 2013, cyflwynodd y Swyddfa Gartref system yn caniatáu i rai euogfarnau a rhybuddiadau hen a mân gael eu "hidlo". Nid oes raid datgelu euogfarn neu rybuddiad sydd wedi ei hidlo pan ofynnir i berson ddatgelu ei

⁸ Ar hyn o bryd maent yn cael eu dosbarthu gan sefydliad o'r enw Datgeliad yr Alban, er bod y corff hwn yn dosbarthu tystysgrifau i ymgeiswyr ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â'r Alban. Y DBS, fodd bynnag, fydd yn ymwneud â'r broses hon o fis Mehefin 2017. Gall ymgeiswyr o Ogledd Iwerddon gael tystysgrifau euogfarnau troseddol a chofnodion o Access NI.

⁹ [2013] EWCA Civ 25. Gweler hefyd (yn dilyn cyflwyniad hidlo) penderfyniad y Goruchaf Lys o [2014] UKSC 35. I ddarllen ymhellach gweler Sam Thomas, "The Supreme Court judgment in *R (on the application of T) v Chief Constable of Greater Manchester and the effect on professional regulators*" [2015] 2 *Adolygiad Cyfraith Troseddol* 149.

gofnod neu ei chofnod troseddol at ddibenion swyddi, proffesiynau a thrwyddedau ac amgylchiadau eraill a drafodwyd uchod. Nid yw ychwaith yn ymddangos ar dystysgrif cofnodion troseddol y person hwnnw (naill ai safonol neu fanylach).

1.34 Bydd euogfarn yn cael ei hidlo os:

- (1) mai dyma unig euogfarn y person;
- (2) nad oedd yn arwain at ddedfryd o garchar, naill ai ar unwaith neu ddedfryd ohiriedig, neu gyfnod o wasanaeth cadw;
- (3) oedd wedi digwydd o leiaf 11 mlynedd ynghynt, yn achos oedolyn, neu o leiaf bum mlynedd a hanner ynghynt, yn achos person oedd dan 18 oed ar adeg yr euogfarn; a
- (4) nid oedd ar gyfer "trosedd restredig".

1.35 Bydd rhybuddiad yn cael ei hidlo os cafodd ei roi o leiaf chwe blynedd ynghynt, yn achos oedolyn neu o leiaf ddwy flynedd ynghynt yn achos person oedd dan 18 oed ar adeg y drosedd, ac nid oedd ar gyfer trosedd restredig.

1.36 Mae'r rhestr o droseddau rhestredig, a elwir hefyd yn "droseddau an-hidladwy", wedi eu gosod allan mewn dau le:

- (1) at ddibenion adsefydlu troseddwyr, yn erthygl 2A(5) o Orchymyn 1975; a
- (2) at ddibenion tystysgrifau cofnodion troseddol, yn adran 113A(6D) Deddf yr Heddlu 1997.

Mae'r rhestrau hyn yn union yr un fath ac eithrio bod y rhestr yng Ngorchymyn 1975 ddim yn cynnwys llofruddiaeth.¹⁰ Er hwylustod, rydym cyfeirio yn unig at y rhestr yn 113A(6D) o Ddeddf yr Heddlu 1997 (adran 113A(6D)).

1.37 Nid yw adran 113A(6D) yn cynnwys rhestr wedi eitemeiddio o droseddau. Mae'n cyfeirio ar rai troseddau yn ôl eu henwau, ond yn cyfeirio hefyd at restrau a gynhwysir mewn Atodlenni i ddeddfwriaeth arall, Deddfau Seneddol a rheoliadau fel ei gilydd. Mae rhai o'r rhestrau hyn yn gorgyffwrdd â'i gilydd, gan arwain at ddyblygu ar raddfa fawr. Gall cyfeirio at restrau mewn deddfwriaethau eraill, yn benodol mewn rheoliadau, hefyd arwain at ansicrwydd arwyddocaol ynghylch beth sydd a beth na sydd ar y rhestr o droseddau an-hidladwy ar unrhyw un adeg.

1.38 Mae'r adran hefyd yn cyfeirio at:

- (1) droseddau a "ddisodlwyd" gan droseddau eraill yn y rhestr;
- (2) ymdrechion, cynllwynion, a throeddau cychwynol eraill¹¹perthnasol i droseddau eraill yn y rhestr; a

¹⁰ Y rheswm am hyn yw, dan ROA 1974, nid yw eogfarn o lofruddiaeth byth yn cael ei disbyddu.

- (3) throseddau dan ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru a Lloegr, a throseddau i'r gwrthwyneb i gyfraith yn y lluoedd arfog yn "cyfateb" i droseddau eraill yn y rhestr.

Problemau gyda'r drefn hidlo gyfredol (Pennod 3)

1.39 Mae drafftio'r adran yn ei gwneud yn anodd ac anhygyrch i ddefnyddwyr, oherwydd bod y rhestr mewn dau le ac am ei bod yn cyfeirio mor helaeth at ddeddfwriaeth arall, sydd yn anodd ei gyrchu. Mae'r anhawsterau hyn yn deillio o'r ffaith bod yn rhaid cyfeirio at nifer o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth er mwyn dynodi troseddau sydd yn an-hidladwy,^{12a} bod copi diweddar o'r ddeddfwriaeth berthnasol ond ar gael ar hyn o bryd o gronfeydd data cyfreithiol trwy danysgrifio. Mae amheuon hefyd ynghylch dehongli'r rhestr, yn benodol y canlynol:

- (1) *Pa fersiwn o'r rhestr:* ble mae'r adran yn cyfeirio ar restr a gynhwysir mewn gorchymyn neu reoliadau, nid yw'n glir a yw'r effaith i gynnwys pob trosedd yn y rhestr honno fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, neu y troseddau hynny yn unig oedd ar y rhestr honno yn 2013.

Mae egwyddor i gyfraith weinyddol a elwir y "rheol yn erbyn is-ddirprwyo" yn datgan bod yn rhaid i awdurdod sydd yn gwneud penderfyniad, gan gynnwys penderfyniad i wneud rheoliadau, ddefnyddio ei ddisgresiwn ei hun a pheidio â gwneud i'r penderfyniad hwnnw ddibynnu ar benderfyniadau a wnaed gan awdurdod gwahanol neu at ddibenion gwahanol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r rhai hynny sydd yn creu'r rheoliadau feddwl yn ddwys am y rheoliadau hynny, nid dilyn yn ddall rheoliadau eraill nad ydynt wedi eu gweld: yn benodol, rheoliadau a gânt eu gwneud yn y dyfodol yn unig. Gall dehongli yr adran mewn modd sydd yn cyfeirio at reoliadau sydd yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd dramgwyddo yn erbyn yr egwyddor hon. Gall hyn olygu yn ymarferol nad yw'r rhestr an-hidladwy yn cael ei diweddarau i gydsynio gydag unrhyw ychwanegiadau, waredu neu ddiwygiadau eraill y gellir eu gwneud i rai o'r rhestrau o droseddau y cyfeirir atynt yn adran 113A(6D).

- (2) *Awdurdodaeth:* mae rhai o'r rhestrau y cyfeirir atynt yn yr adran yn ymddangos fel rhai sydd yn berthnasol i droseddau yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ond yn cynnwys rhai troseddau y gellir eu cyflawni hefyd yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'n glir a yw hyn yn golygu bod y troseddau hynny hefyd yn "an-hidladwy" pan yn cael eu cyflawni Nghymru a Lloegr.

¹¹ Trosedd "gychwynnol" yw trosedd sydd yn cynnwys paratoi ar gyfer neu hybu cyflawni trosedd arall. Enghreifftiau o hyn yw ymgais, cynllwynio a'r troseddau o gynorthwyo a chefnogi trosedd dan Adran 2 Deddf Troseddu Difrifol 2007.

¹²Fel yr eglurwyd ymhellach ym Mhenodau 2 a 3, mae rhestr ar gael o "droseddau na fyddant yn cael eu hidlo byth", a gyhoeddir ar wefan y Llywodraeth ond mae'n ymddangos nad yw hyn yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth yn gywir. DBS a'r Swyddfa Gartref, *Rhestr o droseddau na fyddant yn cael eu hidlo byth o dystysgrif DBS* (Rhagfyr 2013) ar gael o <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-list-of-offences-that-will-never-be-filtered-from-a-criminal-record-check> (ymwelwyd diwethaf 20 Hydref 2016).

- (3) *Mae ystyr "disodli":* adran 113A(6D) paragraff (k) yn cyfeirio at droseddau a "ddisodlwyd" gan droseddau y cyfeirir atynt rhywle arall yn yr adran. Nid yw'n eglur a oes gan "disodli" yr ystyr cul o "ddiddymu a newid", neu ystyr ehangach sydd yn cynnwys unrhyw sefyllfa lle mae trosedd fwy newydd yn gorgyffwrdd â ac y gellir ei defnyddio yn lle un hŷn. Mae dwyn dan y Deddfau Dwyn 1968 yn disodli yn glir yr hen droseddau lladrad, sydd wedi peidio â bod. Mae'n llai eglur a yw'r trosedd dan adran 1 Deddf Troseddau Stryd 1959 (sefyllian neu lithio at ddibenion puteindra) wedi ei disodli gan droseddau puteindra mwy diweddar: mae'r trosedd hŷn yn dal mewn defnydd.
- (4) *Trin troseddau dan awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr a throeddau yn y lluoedd arfog:* nid yw'n eglur a yw'n rhaid i trosedd "gyfatebol" yn y lluoedd arfog, neu trosedd a gyflawnir mewn awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr, gyfateb yn union i trosedd a restrwyd yng Nghymru a Lloegr, ac, os na, pa mor agos mae'n rhaid i'r gyfatebiaeth fod.

1.40 Mae, gellid dadlau, problemau gweithredol arwyddocaol hefyd. Pan yn cyflwyno tystysgrïau confodion troseddol, nid yw'r DBS yn cyfeirio yn uniongyrchol at 113A(6D) ond yn defnyddio "rhestr weithredol" wedi eitemeiddio o droseddau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r rhestr weithredol yn ei thro yn dibynnu ar y codau troseddau a ddefnyddir gan y PNC er mwyn dynodi y troseddau hynny sydd yn an-hidladwy. Mae hyn yn creu yr anhawsterau canlynol:

- (1) *Nid yw codau PNC yn cyfateb bob amser i droseddau a restrwyd:* mae rhai troseddau ond yn an-hidladwy mewn amgylchiadau, neilltuol, er enghraifft pan gyflawnir y trosedd mewn perthynas â phlentyn. Nid yw'r codau PNC a ddefnyddir i ddynodi troseddau unigol oddi mewn i system y PNC yn adlewyrchu y gwahaniaethau hyn bob amser. Mae'r gallu oddi mewn i system y PNC i ddynodi ffurfiau penodol o drosedd arbennig ac i aseinio codau unigryw i'r ffurfiau penodol hynny, ond mae'n ymddangos nad oes proses mewn lle i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud ar gyfer pob ffurf benodol o drosedd arbennig sydd yn ymddangos ar y rhestr an-hidladwy o droseddau. Canlyniad hyn o bryd i'w gilydd yw bod troseddau sydd ond yn an-hidladwy mewn rhai amgylchiadau yn cael eu cynnwys yn y rhestr weithredol a'u trin fel an-hidladwy beth bynnag yw'r amgylchiadau.
- (2) *Troseddau yn y lluoedd arfog:* un cod PNC yn unig sydd ar gael yn cynrychioli pob trosedd yn y lluoedd arfog yn cyfateb i drosedd ar y rhestr an-hidladwy.¹³ Dan y ddeddfwriaeth mae troseddau yn y lluoedd arfog ond yn an-hidladwy os yw'r trosedd sifiliaid gyfatebol yn an-hidladwy hefyd. Oherwydd dibyniaeth ar y codau PNC, fel yr eglurwyd ym Mhennod 3, os yw troseddau yn y lluoedd arfog yn cael eu cofnodi yn gywir ni fedr y rhestr weithredol adlewyrchu y gwahaniaeth hwn. Rydym yn deall, yn ymarferol fodd bynnag, bod troseddau yn y lluoedd arfog sydd yn cyfateb i droseddau sifiliaid yn cael eu cofnodi ar y PNC fel

¹³ Dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006, s 42, mae gan bob trosedd dan y gyfraith troseddau cyffredinol drosedd gyfatebol yng nghyfraith y lluoedd arfog, gyda'r gwahaniaeth y gellir ei chyflawni yn unrhyw ran o'r byd.

petaent yn droseddau sifiaid, gan ddefnyddio'r codau trosedd hynny. Mae hyn yn ymarfer cofnodi anghywir. Effaith hyn yw sicrhau mai troseddau yn y lluoedd arfog sydd yn cyfateb i drosedd ar y rhestr anhidladwy yn unig sydd yn cael eu datgelu at dystysgrif cofnodion troseddol, ond gall fod gan hyn ganlyniadau annymunol. Er enghraifft, efallai na fydd yn caniatáu i ddedfrydau o garchariad milwrol gael eu gwahaniaethu rhag dedfrydau o garchar.

- (3) *Dehongli "disodlwyd"*: mae'n ymddangos bod rhai troseddau wedi cael eu cynnwys yn y rhestr weithredol ar sail beth sydd, y gellid dadlau, yn ddehongliad rhy eang o "disodlwyd", fel y disgrifiwyd uchod.
- (4) *Troseddau wedi eu cynnwys heb unrhyw sail amlwg o gwbl mewn statud*: mae rhai troseddau ar y rhestr weithredol nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw un o'r rhestrau, na disgrifiadau o droseddau, a geir yn adran 113A(6D).
- (5) *Troseddau mwy newydd sydd ar goll o'r rhestr weithredol*: mae rhai troseddau wedi eu creu'n ddiweddar, megis y rhai hynny gan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, wedi eu cwmpasu gan statudau neu reoliadau y cyfeirir atynt yn adran 113A(6D) ond nid ydynt wedi eu hychwanegu i'r rhestr weithredol.

1.41 O safbwynt unigolyn sydd yn gwneud cais am dystysgrif cofnodion troseddol neu yn dibynnu fel arall ar system ddatgelu y DBS, mae'r problemau ymarferol canlynol yn codi:

- (1) Mae gwallau yn y rhestr weithredol yn golygu y gallai rhai euogfarnau a rhybuddiadau gael eu datgelu yn anghywir neu eu hatal yn anghywir.
- (2) Ni fedr yr unigolyn wneud cais am gael gweld tystysgrif cofnodion troseddol ymlaen llaw, ac oherwydd ansicrwydd y gyfraith, ni fedr y DBS gynnig unrhyw gymorth wrth ateb cwestiynau a ofynnir, er enghraifft, gan ddarpar gyflogwr cyn cyflwyno tystysgrif. Yn yr un modd, nid oes cymorth ar gael i drydydd partïon, megis cyn-gyflogwyr, pan ofynnir cwestiynau iddynt am hanes yr unigolyn yn y gorffennol. Fe all fod anghysonderau rhwng yr atebion a geir yn gynnar yn y broses o gyflwyno cais a chynnwys y dystysgrif cofnodion troseddol a gyflwynir. Gallai hyn arwain at ddryswch, gydag euogfarnau neu rhybuddiadau yn cael eu datgelu yn ddiangen neu bod yr unigolyn yn nes ymlaen yn cael ei gyhuddo o ateb cwestiynau yn anonest.
- (3) Gall cyflogwr sydd yn cynnal gwiriadau "diweddar" yn gyson ar ei weithlu neu ei gweithlu ganfod, oherwydd bod y rhestr o droseddau anhidladwy yn newid o dro i dro, bod diweddariadau mwy diweddar yn cynnwys mwy neu lai o wybodaeth na'r gwiriad gwreiddiol neu ddiweddariadau cynt. Gallai hyn beri dryswch oherwydd pam, er enghraifft, bod euogfarnau hyn nas datgelwyd cynt yn cael eu datgelu yn awr.
- (4) Gall yr ymgeisydd gwyno bod tystysgrif datgeliad troseddol yn anghywir, ond wrth ystyried y gwyn gall y DBS ond wirio'r dystysgrif yn erbyn y rhestr weithredol ac ni all ystyried a yw'r rhestr yn gywir. Felly nid oes yr

un sianel ar gyfer cwyno bod trosedd wedi ei chynnwys yn anghywir gan nad yw'r rhestr weithredol ei hun yn gywir.

1.42 Yn olaf, mae'n ymddangos bod y dewis o droseddau yn y rhestr yn anghyson a heb sail glir. Rydym yn deall gan y Swyddfa Gartref mai prif bwrpas y rhestr o droseddau an-hidladwy yw diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, nid dyma unig bwrpas y rhestr an-hidladwy.

(1) Mae adran 113A(6D) yn cyfeirio yn aml at restrau o droseddau a gynhwysir mewn deddfwriaeth wedi ei darparu at ddibenion hollol wahanol, megis dynodi troseddwy'r peryglus ar gyfer eu dedfrydu.

(2) I'r gwrthwyneb, mae troseddau sydd yn ymddangos yn berthnasol at ddibenion y cwestiynau a eithriwyd, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i ddiogelu, nad ydynt ar y rhestr o droseddau an-hidladwy fel y saif y gyfraith.

Diwygiadau posibl (Pennod 4)

Cynhyrchu rhestr gywir a chilir o droseddau an-hidladwy

1.43 Y cam cyntaf yn yr adolygiad hwn oedd i gynhyrchu, cyn belled â phosibl, rhestr gywir wedi eitemeiddio o droseddau an-hidladwy ar sail y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae hon ar gael yn Atodiad A,¹⁴ ac yn cynnwys llawlyfr â 9 tudalen. Mae taflenni 2 i 8 yn cynnwys y troseddau yr ydym ni yn credu eu bod yn an-hidladwy ar sail y gyfraith gyfredol. Mae taflen 1 yn cynnwys allwedd i gynnwys y llawlyfr.

1.44 Wrth gynhyrchu'r rhestr hon dewisiwyd yn ystyriol yr olwg fwyaf cul o'r gyfraith ar bwytiau o amheuaeth, yn enwedig ynghylch y rheol yn erbyn is-ddirprwyo¹⁵ ac ystyr "disodlwyd".¹⁶ Mae'r rhestr hefyd yn dangos troseddau y gellid eu cynnwys pe cymerid golwg ehangach, ond mae gan y rhain godau lliw i ddangos bod eu statws yn amheus.

1.45 Mae taflen 9 yn Atodiad A yn dangos y gwahaniaethau, cyn belled ag y medrwn ni eu dynodi, rhwng y rhestr wedi eitemeiddio a baratowyd gennym ni a'r rhestr weithredol a ddefnyddir gan y DBS.

Adolygu'r rhestr o droseddau an-hidladwy

1.46 Yna rydym yn ystyried sut y medrid gweithredu rhestr a adolygwyd mewn is-ddeddfwriaeth. Am resymau hygyrchedd a hwyluso defnydd, rydym yn argymhell y dylai'r ddeddfwriaeth osod allan rhestr wedi eitemeiddio o droseddau yn hytrach na chyfeirio at gategoriâu generig fel ar hyn o bryd. Eithriadau i'r dull hwn yw:

(1) troseddau cychwynnol, megis ymgais, cynllwynio, helpu ac annog a chynorthwyo a chefnogi, nad oes angen eu rhestru ar wahân mewn perthynas â phob trosedd sylweddol;

(2) troseddau yn y lluoedd arfog, sydd yn cyfateb un i un i droseddau sifilaidd a heb angen eu rhestru ar wahân; a

¹⁴ Ar gael ar-lein o <http://www.lawcom.gov.uk/project/criminal-records-disclosure/>

¹⁵ Gweler para 1.394-388(1)

¹⁶ Gweler para 1.394-388(3)(3) uchod.

- (3) troseddau dan awdurdodaeth yn hytrach nag awdurdodaeth Cymru a Lloegr, lle byddai rhestr gyflawn yn galw am astudio pob system gyfreithiol yn y byd ac a fyddai felly yn amhosibl cyflawni.

Y dull sydd orau gennym - un rhestr o droseddau an-hidladwy

- 1.47 Un cwestiwn yw a yw'n angenrheidiol i'r rhestr ymddangos mewn dau offeryn gwahanol fel y mae ar hyn o bryd neu a yw'n ddigon i gael un rhestr gyflawn at ddibenion adsefydlu troseddwy¹⁷ a chroesgyfeirio ati yn y statud sydd yn rheoli tystysgrifau cofnodion troseddol. ¹⁸Byddai'r ail gwrs yn fwy economaidd yn nhermau drafftio, ond gallai'r broblem o is-ddirprwyo godi, fel y trafodwyd eisoes. Hynny yw, mae risg na fyddai'r rhestr a ddefnyddid at ddibenion tystysgrifau cofnodion troseddol yn adlewyrchu yn awtomatig newidiadau yn y dyfodol yn y rhestr a ddefnyddir ar gyfer y cynllun adsefydlu. ¹⁹
- 1.48 Un effaith o gael rhestr wedi eitemeiddio yw y bydd yn angenrheidiol ei diweddarau pan fydd troseddau newydd yn cael eu creu, ac ni fydd yn bosibl dibynnu ar ddiwygiadau a wneir i statudau eraill fel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan fod y statudau hyn yn aml yn cael eu creu at ddibenion gwahanol nad ydynt yn cyfateb i bwrpas hidlo, dan y system gyfredol ni fyddai'r diwygiadau o reidrwydd yn cyflawni'r canlyniadau cywir. Dan y system arfaethedig, fe allai perthnasedd i'r drosedd newydd i ddiogelu fod yn brif ystyriaeth bob amser wrth benderfynu a ddylid ei ychwanegu at y rhestr, a bydd y rhestr yn dal i wasnaethu'r diben a fwriadwyd.
- 1.49 Nid ydym yn gwneud argymhellion ynghylch a ddylai unrhyw droseddau neilltuol gael eu hychwanegu at neu eu dileu o'r rhestr o droseddau an-hidladwy. Yn benodol, nid ydym wedi cynhyrchu offeryn drafft statudol sydd yn cynnwys rhestr ddiwygiedig o droseddau an-hidladwy i'w gweithredu. Rydym yn pryderu na fydd cyflwyno offerynnau statudol newydd yn unig er mwyn rhoi effaith naill ai i'r rhestr wedi eitemeiddio rydym wedi cynhyrchu, neu restr ddiwygiedig wedi ei chreu o fewn ffiniau cul y prosiect presnnol, yn darparu'r datrysiad gorau i'r problemau ehangach gyda'r drefn ddatgelu fel cyfanwaith.
- 1.50 Mae cwestiynau polisi ehangach ynghylch beth fyddai'r datrysiad gorau posibl ac, yn ein barn ni, gellir ond mynd i'r afael â'r rhain yng nghyd-destun trafodaeth ehangach o'r drefn ddatgelu a datblygu egwyddorion clir y gellir seilio hidlo arnynt.
- 1.51 Yn olaf, rydym yn trafod unrhyw risgiau a fedrai godi a/neu barhau pe byddai ein dull dewisol yn cael ei fabwysiadu, a sut byddai angen addasu'r trefniadau gweithredol (y codau troseddau PNC yn neilltuol) er mwyn sicrhau bod unrhyw restr newydd yn effeithiol.

Testunau ar gyfer adolygiad ehangach (Pennod 5)

Y dewis o droseddau ar gyfer y rhestr

- 1.52 Problem fawr bosibl yn y gyfraith gyfredol yw bod ystod eang iawn o ddibenion y mae angen tystysgrifau cofnodion troseddol ar eu cyfer, a ble mae'r cwestiynau a

¹⁷ Mewn gorchymyn yn lle Gorchymyn 1975.

¹⁸ Yn Neddf yr Heddlu 1997 ar hyn o bryd.

¹⁹Trafodir hyn yn llawn ym Mhennod 3 ein hadroddiad.

eithriwyd yn weithredol, bydd yr holl droseddau nad ydynt wedi disbyddu ar wahân i'r rhai sydd wedi eu hidlo yn cael eu datgelu beth bynnag yw diben y cais. Gallai llys ddal bod torri rheolau yr hawl i barchu bywyd preifat dan Erthygl 8 Comisiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yn anghymesur â'r dibenion a atebir gan y datgeliad.²⁰ Datrysiadu posibl:

- (1) i isrannu'r rhestr o droseddau an-hidladwy yn ôl dibenion gwahanol y cais am ddatgeliad, fel mae troseddau perthnasol yn unig fydd yn cael eu datgelu ymhob achos; neu
 - (2) i greu mecanwaith disgrisiwn neu adolygu er mwyn penderfynu ar berthnasedd euogfarn neu rybuddiad i'r cais neilltuol a wnaed.
- 1.53 Ystyriaeth arall yw bod rhai troseddau yn cwmpasu amrediad eang o ymddygiad, a rhai ohonynt yn unig sydd yn berthnasol at ddibenion y rhestr an-hidladwy. Dylai trosedd gael ei chynnwys yn y rhestr yn unig os yw pob un neu y rhan fwyaf o enghreifftiau o'i chyflawni yn debygol o godi pryderon ynghylch y dibenion hynny.
- 1.54 Fel dewis arall, mewn troseddau o sbectrwm eang o'r math hyn dylai bod prawf ar gyfer neilltuoli yr enghreifftiau hynny sydd yn debygol o godi pryderon. Gellir canfod un prawf yn y rheol sy'n bodoli eisoes nad yw euogfarn yn cael ei hidlo os oes mwy nag un neu os oedd wedi arwain at ddedfryd o garchar. Gall hyn fod yn ddadl yn erbyn cynnwys troseddau o sbectrwm eang yn y rhestr. Gellid hyd yn oed cwestiynu, o ystyried y rheol hon, a oes angen i unrhyw droseddau fod yn an-hidladwy.

Y rheolau ynghylch euogfarnau lluosog a dedfrydau o garchar

- 1.55 Posibilrwydd arall yw i lacio'r rheol sydd yn bodoli nad yw euogfarnau byth yn cael eu hidlo os oes gan y person fwy nag un euogfarn.²¹ Nid yw ail euogfarn o reidrwydd yn golygu bod y person wedi cyflawni troseddau ar ddau achlysur ar wahân.
- 1.56 Efallai bod angen hefyd ailystyried y rheol ynghylch datgelu pob euogfarn sydd yn arwain at ddedfryd o garchar. Byddai dadl ynghylch caniatáu hidlo euogfarnau os yw'r ddedfryd yn llai nag ambell hyd, yn enwedig os yw'n ohiriedig (hynny yw, pan fo troseddwr ddim yn mynd i garchar cyhyd â'i fod ef neu hi yn cadw at delerau a osodir dros gyfnod penodol o amser).
- 1.57 Mae'r rheol yn arbennig o llym ar aelodau o'r lluoedd arfog, gan fod y stadud yn nodi yn benodol bod troseddau yn an-hidladwy os ydynt yn arwain at gyfnod dan gadwad yn y lluoedd arfog. Yn y lluoedd arfog, gorfodir cyfnodau dan gadw am weithredoedd o gamymddwyn cymharol fân ac am gyfnodau o ychydig ddyddiau yn unig; mae cyfnod dan gadwad yn y lluoedd arfog yn cael ei ystyried at ddiben adsefydlu ac nid yw o anghenraid yn cario unrhyw stigma neilltuol.

²⁰ Gweler er enghraifft *R (ar gais G) v Prif Gwnstabl Heddlu Surrey ac eraill* [2016] EWHC 295 (Admin), er nad oedd yr achos hwn yn ymdrin yn benodol â mater y rhestr o droseddau an-hidladwy yn cael eu defnyddio at ddibenion lluosog.

²¹ Gweler er enghraifft *R (ar gais P) v Ysgrifennydd Gwladol Cyfiawnder* [2016] EWHC 89 (Admin).

Yr effaith ar droseddwr ifanc

- 1.58 Gellid ystyried y system fel un anghymesur o llym ei heffaith ar droseddwr ifanc. Mae yna ddadl y dylai rhai troseddau, er eu bod yn haeddiannol yn an-hidladwy o'u cyflawni gan oedolyn, gael eu tynnu oddi ar gofnod wedi cyfnod o amser yn achos troseddwr ifanc.
- 1.59 Yn arbennig ar gyfer troseddwr ifanc, ond i raddau ar gyfer oedolion hefyd, mae dadl na ddylai rhybuddiadau barhau ar gyfnod yn barhaol, hyd yn oed os ydynt ar gyfer trosedd restredig. Os nad ystyrid trosedd yn ddigon difrifol i haeddu erlyniad ar y pryd, efallai ei bod yn ymddangos yn rhyfedd ei thrin fel un sy'n codi pryderon gydol oes ynghylch ymddygiad troseddwr yn y dyfodol. Ar y llaw arall gellid dadlau bod hyn yn berthnasol yn achos ychydig iawn o droseddau, ac o'r herwydd dylid cael rhestr ar wahân, fyrrach o lawer, o droseddau an-hidladwy yn achos rhybuddiadau.
- 1.60 Pryder arall ar hyn o bryd yw nad yw troseddwr o bob oedran sydd yn derbyn rhybuddiad am droseddau an-hidladwy yn cael gwybod adeg derbyn y rhybuddiad y bydd y troseddau hyn yn parhau ar eu cofnod yn amhenodol. Maent felly yn derbyn y rhybuddiad gan gredu mai dyna ddiwedd y mater, ac nid ydynt yn gwerthfawrogi'r canlyniadau hir-dymor. Mae'r potensial i unigolyn fethu deall yn iawn beth yw effaith rhybuddiad, a'r dylanwad ar ei ddisgwyliadau ef neu ei disgwyliadau hi ar gyfer gwaith yn y dyfodol, yn fawr iawn os yw'r troseddwr yn berson ifanc.

Diwygio gweithdrefnau

- 1.61 Fel y nodwyd uchod, ni all unigolyn gael arweiniad penodol gan y DBS ynghylch sut i ateb cwestiynau am ei gofnod neu ei chofnod troseddol cyn cyflwyno cais am dystysgrif cofnodion troseddol.²² Un diwygiad posibl fyddai rhoi'r hawl i ymgeisydd gael rhagolwg o'i dystysgrif neu ei thystysgrif cofnodion troseddol ar unrhyw gam. Un arall fyddai pennu nad oes yn rhaid i ymgeisydd ateb cwestiynau am ei gofnod neu ei chofnod troseddol ar unrhyw adeg ac eithrio i gyflwyno tystysgrif cofnodion troseddol.
- 1.62 Problem arall, a nodwyd uchod hefyd, yw y gall ymgeisydd gwyno am wallau mewn tystysgrif cofnodion troseddol ond yn ymarferol ni fedr gwestiynu rhestr weithredol y DBS. Gellid lliniaru llawer ar y broblem hon pe byddai'r rhestr statudol yn cael ei heitemeiddio fel rydym yn argymhell, gan y byddai hyn yn osgoi'r angen am restr weithredol ar wahân. Fodd bynnag, bydd y posibilïad o wallau yn parhau a gellid dadlau y dylid cael dyfarnwr annibynnol gyda'r grym i ystyried a yw'r rheolau hidlo wedi eu defnyddio yn gywir fel mater o gyfraith.

Casgliadau

- 1.63 O ystyried yr amrediad anferth a maintioli'r problemau a ddynodwyd gan ein hasesiad dros dro o'r system ddatgeliad fel cyfanwaith, mae achos grymus i'w gyflwyno yn ffafrio adolygiad ehangach. Ein casgliad yw bod y system bresennol

²²Cyhoeddir arweiniad cyffredinol ar gael tystysgrifau cofnodion troseddol a'r defnydd o hidlo ar adran y DBS o wefan y Llywodraeth: <https://www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance>. Yn ogystal â hyn mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi arweiniad ar effaith gweithredu cynllun adsefydlu troseddwr, ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/new-guidance-on-the-rehabilitation-of-offenders-act-1974> (ymwelwyd ddiwethaf 12 Ionawr 2017). Nid yw'r arweiniad hwn yn mynd i'r afael yn benodol â pha droseddau unigol sydd yn an-hidladwy.

yn codi pryderon arwyddocaol mewn perthynas ag anghydsyniad gyda'r ECHR a'r canlyniadau rhy llym sydd yn deillio o fethiant i ymgorffori naill ai cymesuredd neu berthnasedd i benderfyniadau datgeliad. Mae fframwaith ddeddfwriaethol annatod a chwestiynau o sicrwydd cyfreithiol yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach. Dyma adran o'r gyfraith sydd mewn angen dybryd am ddadansoddiad trylwyr ac arbenigol. Nid yw datrysiad technegol yn unig yn ddigon i fynd i'r afael â phroblemau mor ymblethedig ac ar y fath raddfa fawr.

Rhestr o argymhellion

Yr angen i ddatblygu set o egwyddorion i benderfynu pa droseddau ddylai fod yn an-hidladwy

Argymhelliad 1: Y prif faen prawf ar gyfer ychwanegu trosedd newydd i'r rhestr an-hidladwy o droseddau ddylai fod perthnasedd i un neu fwy o'r cwestiyau eithriedig a ddynodwyd yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975 ("Gorchymyn 1975"). Mae angen adolygiad ehangach o'r system ddatgeliad cofnodion troseddol er mwyn creu set resymegol o egwyddorion ble gellid dethol troseddau i'w cynnwys.

SUT MEDRAI RHESTR NEWYDD GAEL EI GWEITHREDU MEWN STATUD

Cadarnhad

- 1.64 **Argymhelliad 2:** Dylid gosod allan y set an-hidladwy o droseddau mewn un offeryn statudol yn hytrach na dau.

Rhestru troseddau yn unigol

- 1.65 **Argymhelliad 3:** Dylid rhestru'r troseddau an-hidladwy yn unigol fesul enw ac adran, hen gyfeirio at restrau mewn deddfwriaeth arall.

Troseddau a "ddisodlwyd"

- 1.66 **Argymhelliad 4:** Dylai'r rhestr o droseddau an-hidladwy gynnwys yr holl droseddau a ddiddymwyd fesul enw.

Troseddau "cychwynnol" a "chyfatebol"

- 1.67 **Argymhelliad 5:** Dylai'r rhestr o droseddau an-hidladwy gynnwys eu cyfwerth i baragraffau (l) i (o) o adran 113A(6D) o Ddeddf yr Heddlu 1998 sydd yn bodoli (yn cynnwys fersiynau cychwynnol o droseddau ar y rhestr, troseddau a gyflawnwyd mewn awdurdodaeth ar wahân i Gymru a Lloegr a thoseddau yn y lluoedd arfog, yn cyfateb i droseddau eraill ar y rhestr).

CADW RHESTR WEDI EI DIWEDDARU YN GYFREDOL

Ychwanegu troseddau bob yn un

- 1.68 **Argymhelliad 6:** Dylai'r rhestr o droseddau an-hidladwy, wedi eu gosod allan mewn deddfwriaeth, gael ei diweddarau trwy ddiwygio'r deddfwriaeth honno.

Y RISGIAU YNGHLWM WRTH RESTR DDIWYGIEDIG

Angen diwygio system godau y PNC

- 1.69 **Argymhelliad 7:** Dylid cynnal adolygiad o system godau y PNC i asesu sut mae modd ei ddiwygio er mwyn gwneud y system hidlo yn fwy effeithiol.